

Haf o Hwyl

Tasg Arbennig
yr Haf ar gyfer
Llysgenhadon
Gwych

Adnodd i
Athrawon



Comisiynydd
Plant
Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Haf o Hwyl – Tasg Arbennig yr Haf

Gwybodaeth ar gyfer Athrawon

Cewch ragor o wybodaeth am yr Haf o Hwyl [yma](#).

Cysylltiadau â hawliau plant:

Erthygl 2, Erthygl 12, Erthygl 15, Erthygl 29 ac Erthygl 31.

Tasg y Llysgenhadon Gwych

Tasg y tymor yma yw bod y Llysgenhadon yn cynllunio' u gweithgaredd "Haf o Hwyl" eu hunain. Gallai hynny olygu diwrnod llawn o hwyl yn eich ysgol neu gyfres o weithgareddau llai. Gall hyn gydweddu â chynlluniau sydd gennych eisoes ar gyfer diwedd tymor.

Rydyn ni wedi creu pecyn gweithgaredd i Lysgenhadon Gwych arwain gwaith cynllunio a chyflwyno eu gweithgaredd Haf o Hwyl. Rydyn ni'n awgrymu gweithio gyda'r disgyblion i feddwl am beth fydd yn bosib yn eich lleoliad ysgol cyn iddyn nhw gychwyn ar eu sesiwn gynllunio.

Nod yr Haf o Hwyl yw cael mwynhad, a does dim angen i'r gweithgareddau mae eich ysgol yn eu cynllunio gostio llawer o arian, os byddan nhw'n costio unrhyw beth o gwbl, na bod angen cyfarpar newydd. Yn eu pecyn gweithgaredd rydyn ni wedi atgoffa disgyblion na ddylai'r gweithgareddau maen nhw'n eu cynllunio gostio llawer o arian.

Rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau ar gyfer gweithgareddau gallai eich ysgol eu cynnal yn y pecyn gweithgaredd. Daeth yr awgrymiadau hyn o'n Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc.

Cofiwch rannu eich gweithgareddau gyda ni ar Twitter gan ddefnyddio #HafoHwyl a thagio @complantcymru.



Sut mae cynnal y dasg yn eich ysgol:

Cam 1: Trefnwch gyfarfod gyda'ch Llysgenhadon a dangoswch y pecyn gweithgaredd iddyn nhw

Cam 2: Penderfynwch ar 4 opsiwn ar gyfer gweithgareddau gyda'ch Llysgenhadon Gwych

Cam 3: Cynhaliwch bleidlais ar y 4 opsiwn gyda'r holl ddosbarthiadau yn eich ysgol (mae cynllun gwerau y gallwch chi ei rannu gydag athrawon eraill ac awgrymiadau eraill ar gyfer ffyrdd o wneud hyn isod)

Cam 4: Cynlluniwch y gweithgaredd a ddewiswyd gyda'ch Llysgenhadon Gwych

Cam 5: Cynhaliwch eich gweithgaredd Haf o Hwyl

Pecyn Gweithgaredd

Yn y [pecyn gweithgaredd](#) rydyn ni wedi darparu'r canlynol ar gyfer y Llysgenhadon Gwych:

- Taflen waith ar gyfer cynllunio
- Syniadau ar gyfer gweithgareddau gallen nhw eu cynnal
- Syniadau ar gyfer sut gallen nhw gyflwyno'r wybodaeth i'w hathro cyswllt

Os ydych chi'n cefnogi disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), rydyn ni'n argymhell defnyddio'r [pecyn offer yma](#).

Gweithgareddau ar gyfer casglu barn disgyblion eraill

Yn y pecyn gweithgaredd rydyn ni wedi awgrymu'r canlynol i'r Llysgenhadon Gwych:

- Gwylio'r [fideo gan Sally Holland](#), Comisiynydd Plant Cymru
- Gweithio gyda'ch athro i ddewis 4 gweithgaredd
- Gofyn i bob dosbarth bleidleisio a dewis eu hoff weithgaredd

Isod mae dau opsiwn ar gyfer cynnal pleidlais gyda'r disgyblion, gallech chi ddefnyddio un o'r rhain neu eich offer pleidleisio eich hun yn yr ysgol. Dylech chi ofyn i'r athrawon fwydo pleidlais eu dosbarth yn ôl i'r Llysgenhadon Gwych.

1. Gweithgaredd Dosbarth

Bydd y cynllun gwerau yma'n galluogi athrawon i gynnal pleidlais yn y dosbarth a bwydo'r wybodaeth yn ôl i'r Llysgenhadon Gwych

2. Gweithgaredd "Dwi'n Hoffi"

Gweithgaredd i unigolion/grwpiau bach yw hwn, i'r staff ei gynnal gyda'r disgyblion a bwydo atebion yn ôl i'r Llysgenhadon Gwych.

Beth sy'n Digwydd yn Lleol?

Efallai byddwch chi am roi syniadau i'r disgyblion am beth sy'n digwydd yn lleol yn ystod Gwyliau'r Haf. Gallwch chi wneud hyn trwy gyfeirio rhieni a gwarcheidwaid at <https://www.complantcymru.org.uk/haf-o-hwyl-2021/>

Haf o Hwyl - Llyfr Erthygl 31

Trwy gydweithio â Chwarae Cymru, rydyn ni'n creu e-lyfr yn llawn syniadau ar gyfer gêmâu difyr am ddim i'w chwarae. Bydd yr e-lyfr yn cynnwys awgrymiadau gan blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru, a bydd ar gael ar ein gwefan ar hyd yr haf.

Gall disgyblion gymryd rhan trwy lenwi'r [daflen yma](#), a'i hanfon i post@complantcymru.org.uk neu trwy lenwi ein ffurflen ar-lein [yma](#).

Sesiwn Ddosbarth Haf o Hwyl

Mae'r cynllun gwers yma yn rhan o Dasg Arbennig yr Haf o Hwyl.

Rydyn ni wedi cynnwys amrywiaeth o weithgareddau; dewiswch yr un sy'n fwyaf addas i'ch disgyblion. Dylai atebion eich dosbarth gael eu bwydo'n ôl i'ch Llysgenhadon Gwych / Cyngor Ysgol.

Gweithgaredd	Amser a Awgrymir	Adnoddau Ychwanegol
<p><u>Cyflwyniad</u></p> <p>Esboniwch wrth y disgyblion y byddwch chi'n cymryd rhan yn y Dasg Arbennig i Gomisiynydd Plant Cymru.</p> <p>Y Dasg Arbennig yw bod eich Llysgenhadon Gwych yn cynnal Gweithgaredd Haf o Hwyl.</p> <p>Heddiw byddwn ni'n gwneud rhai penderfyniadau am y gweithgaredd bydden ni'n hoffi ei wneud.</p> <p>Byddwn ni'n cynnal pleidlais, a'r gweithgaredd sy'n cael y nifer mwyaf o bleidleisiau fydd yn ennill. Mae pob dosbarth yn yr ysgol yn pleidleisio, felly mae hynny'n golygu efallai nad ein dewis ni fydd yn ennill.</p> <p>Crewch gysylltiadau ag Erthygl 12: Mae gen i hawl i gael gwrandawriad ac i gael fy nghymryd o ddifri trwy ddangos y cerdyn symbol i'r disgyblion.</p>	10 munud	<p>Os nad ydych chi wedi cyflwyno hawliau neu Gomisiynydd Plant Cymru eto, efallai byddwch chi am gynnal gwers ragarweiniol.</p> <p>Bydd angen i chi wybod beth yw enwau eich Llysgenhadon Gwych cyn cynnal y sesiwn hon.</p> <p>Mae'r cardiau symbolau i'w gweld yma.</p>
<p><u>Corff y Wers</u></p> <p><u>Dangoswch i'r dosbarth y 4 gweithgaredd mae'r Llysgenhadon Gwych wedi'u dewis.</u></p>	20 munud	

<p>Dewiswch un o'r gweithgareddau canlynol i'w gwneud gyda'ch dosbarth.</p> <p>Pleidlais Dot</p> <p>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau gwaith bach. Gofynnwch i bob grŵp gael trafodaeth am y gweithgaredd maen nhw'n ei hoffi fwyaf.</p> <p>Rhowch y dewisiadau gweithgaredd ym mlaen y dosbarth.</p> <p>Rhowch UN bleidlais yr un i'r disgyblion a gofynnwch iddyn nhw wneud marc ar y gweithgaredd bydden nhw'n hoffi ei wneud (gallech chi ddefnyddio dotiau gludlog neu binnau ffelt i bleidleisio).</p> <p>Rhoi'r Gweithgareddau yn eu trefn</p> <p>Rhowch luniau o'r gweithgareddau a ddewiswyd i'r grwpiau gwaith bach.</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion roi'r gweithgareddau yn eu trefn, gyda'r un maen nhw'n ei hoffi FWYAF ar y top, a'r un maen nhw'n ei hoffi LEIAF ar y gwaelod.</p> <p>Casglwch adborth gan bob grŵp.</p>		
<p>Myfyrio</p> <p>Gweithiwch fel dosbarth i ddatgelu pa weithgaredd gafodd y nifer mwyaf o bleidleisiau.</p> <p>Esboniwch wrth y disgyblion y byddwch chi'n rhoi'r canlyniad yma i'w Llysgenhadon Gwych, a fydd yn cynllunio'r gweithgaredd Haf o Hwyl.</p>		

Byddan nhw'n cyfri'r pleidleisiau o bob dosbarth i benderfynu pa weithgaredd byddwch chi'n ei wneud.		
--	--	--

Gweithgaredd "Dwi'n Hoffi"

Gweithgaredd dan arweiniad oedolyn yw hwn, ar gyfer unigolion neu grwpiau bach.

Gan ddefnyddio'r adnodd yma, cefnogwch y plant i wneud dewis ynghylch y gweithgaredd bydden nhw'n hoffi ei wneud.

1. Rhowch y mat Dwi'n Hoffi/Dwi ddim yn Hoffi o flaen pob disgybl.
2. Esboniwch eich bod chi'n mynd i ddangos llun iddyn nhw o weithgaredd gallen nhw ei wneud yn yr ysgol, ac y gallan nhw ddewis dweud fydden nhw'n hoffi ei wneud.
3. Dangoswch UN llun i'r disgyblion ar y tro, ac aros i'r disgyblion ddweud eu dewis wrthyich chi. Gallen nhw ddweud wrthyich chi a ydyn nhw'n ei hoffi, neu bwyntio at y llun ar eu mat.
4. Unwaith mae'r disgybl wedi gwneud penderfyniad, rhowch gopi o'r llun ar eu mat yn y blwch sy'n adlewyrchu eu hateb.
5. Crynhowch yr atebion mwyaf poblogaidd fel rhan o'ch pleidlais yn y dosbarth, a rhannu hynny gyda'ch Llysgenhadon Gwych.